Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 Comisiwn y Cynulliad: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Rhagfyr 2019

## Cyflwyniad

**1.** Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) yw un o'r ddau gorff y mae eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon yn destun gwaith craffu blynyddol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor). Dyma'r chweched flwyddyn i'r Pwyllgor graffu ar gyfrifon Comisiwn y Cynulliad.

**2.** Roedd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 2018-19 yn destun gwaith craffu gan Anthony Barnett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 16 Gorffennaf 2019. Craffodd y Pwyllgor ar y cyfrifon ar 30 Medi 2019.[1]

**3.** Y llynedd, gwnaeth y Pwyllgor naw argymhelliad yn benodol i Gomisiwn y Cynulliad yn ei adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2017-18.

## 1. Perfformiad ariannol a gweithredol

**4.** Mae gan Gomisiwn y Cynulliad gyllideb net flynyddol o oddeutu £55 miliwn. Mae ganddo set o ddangosyddion perfformiad allweddol ar waith tan 1 Ebrill 2019, sy'n cynnwys targed o 0.5 y cant ar gyfer alldro adnoddau. Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2017-18 y dylai Comisiwn y Cynulliad ddiwygio'r dangosydd perfformiad allweddol hwn i adlewyrchu y dylai targedau

[1] Cofnod y Trafodion, 30 Medi 2019

ariannol ddangos y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff cyllid ei reoli mewn modd mwy manwl gywir, ac na ddylai ymwneud â lleihau tanwariant yn unig.

**5.** Esboniodd Comisiwn y Cynulliad ei fod wedi gosod dangosyddion perfformiad allweddol newydd ar gyfer 2019-20 gan ei fod wedi cyrraedd y mwyafrif o'r targedau presennol. Esboniodd Suzy Davies AC, y Comisiynydd ar gyfer y Gyllideb a Llywodraethu, fod angen agwedd sydd ychydig yn fwy ymestynnol o bosib ar rai elfennau o waith Comisiwn y Cynulliad a dywedodd hefyd y canlynol am Gomisiwn y Cynulliad:

> "we should be looking not just at quantitative responses to the KPIs that we were setting, but some qualitative ones as well. So, for example, it's not just a case of how many visitors we might get in a given year, but the impact of those visitors—how much they might have learned about the work of the Assembly, its role in the constitution and so forth."[2]

**6.** Rhoddodd Comisiwn y Cynulliad gopi o'i ddangosyddion perfformiad allweddol newydd a'i dargedau ymestynnol i'r Pwyllgor[3] yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor. Ar ôl adolygu'r rhain, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai rhai o'r targedau hyn fod yn fwy uchelgeisiol - er enghraifft byddem yn disgwyl gosod targed o 100 y cant ar gyfer cynnal yr holl Fusnes Seneddol yn unol â'r amserlen. Er ein bod yn deall efallai na fydd modd sicrhau hyn bob amser, ymddengys yn afresymegol anelu at lai.

**7.** Yn flaenorol, nododd y Pwyllgor fod angen i Gomisiwn y Cynulliad ailedrych ar ei dargedau o ran rheoli ariannol. Nid yw'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru fodloni ei hun bod gan Gomisiwn y Cynulliad drefniadau priodol ar gyfer sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, y cyfeirir ato'n gyffredin fel y "casgliad Gwerth am Arian". O ystyried hyn, nid yw'r Pwyllgor yn gweld gwerth dangosydd perfformiad allweddol os mai'r targed ar ei gyfer yw bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi barn ddiamod ar gyfrifon blynyddol Comisiwn y Cynulliad. Yn wir, rydym o'r farn bod disgwyl i'r cyfrifon fod yn ddiamod.

**8.** Nododd y Pwyllgor fod y dangosyddion perfformiad allweddol yn cynnwys targed alldro o hyd ond bod gan hwn ystod o werthoedd rhwng 0 y cant a 1.5 y cant. Mae'n destun pryder i'r Pwyllgor fod yr ystod bellach yn fwy nag o'r blaen, a bod y gwerth uchaf 1 y cant yn uwch na'r targed blaenorol. Nod ein hargymhellion

[2] Cofnod y Trafodion, 30 Medi 2019, paragraff 12

[3] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-27-19 PTN2, 4 Tachwedd 2019

blaenorol yn y maes hwn oedd symud i ffwrdd o ddangosydd a allai gymell yn anfwriadol y dylid gwario'r holl arian sydd ar gael.

**9.** Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi mai 2018-19 yw'r flwyddyn gyntaf i Gomisiwn y Cynulliad ddychwelyd tanwariant o gyllideb penderfyniad y Bwrdd Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru ac y bydd pob tanwariant o'r fath yn cael ei ddychwelyd yn y blynyddoedd i ddod, a hynny'n unol ag argymhellion blaenorol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cyflwyno dangosydd perfformiad allweddol sy'n canolbwyntio ar reoli ariannol yn hytrach na tharged alldro.

## 2. Staffio

**10.** Cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad Gynllun Ymadael Gwirfoddol yn ystod 2018-19. Gadawodd 24 aelod o staff o dan y cynllun hwn. Mae'r cyfrifon yn dangos mai cost y Cynllun Ymadael Gwirfoddol oedd £1.016 miliwn. Holodd y Pwyllgor Gomisiwn y Cynulliad am fudd a gwerth am arian y cynllun ymadael gwirfoddol hwnnw. Esboniodd Suzy Davies AC nad arbed swyddi nac arian oedd prif bwrpas y cynllun o reidrwydd, ond ei fod yn ymwneud yn fwy penodol ag adnewyddu'r sgiliau yn y gweithlu. Nododd y Pwyllgor fod y cynllun ymadael gwirfoddol fel arfer yn cael ei ddefnyddio fel dull o adnewyddu a gostwng nifer y staff. Ni fyddem am weld Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r cynllun yn rheolaidd yn y dyfodol heb gadw'r nodau hyn mewn cof.

**11.** Nododd y Pwyllgor y wybodaeth yn yr adroddiad amrywiaeth a chynhwysiant sy'n nodi proffiliau amrywiol y gweithlu gan gynnwys rhywedd a hil. Nododd y Pwyllgor, er bod gan Gomisiwn y Cynulliad weithlu cytbwys o ran rhywedd, nad oedd staff o'r gymuned pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar lefelau rheolwyr canol ac uwch-reolwyr, a nodwyd hyn yn yr adroddiad blynyddol:

> "Dylid ymchwilio ymhellach i'r gwahaniaeth hwn, gan ein bod wedi nodi gwahaniaethau tebyg mewn blynyddoedd adrodd blaenorol mewn perthynas â hil/ethnigrwydd."[4]

**12.** Roedd y Pwyllgor yn falch bod Comisiwn y Cynulliad wedi ymateb i'w argymhelliad blaenorol i gyhoeddi'r bwlch cyflog ethnigrwydd a holwyd ef am y gwahaniaethau o ran BAME. Nododd y Pwyllgor y gwaith sy'n cael ei wneud gyda

[4] Comisiwn y Cynulliad, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 (Gorffennaf 2019)

Busnes yn y Gymuned Cymru, yn enwedig y camau cadarnhaol o ran sicrhau bod gwybodaeth am recriwtio, a'r hyfforddiant, yn gynhwysol ac mae'n disgwyl gweld tystiolaeth o gynnydd yn y blynyddoedd i ddod.

**13.** Mae Comisiwn y Cynulliad wedi gosod targed ymestynnol i'r sgoriau unigol ar gyfer ceisiadau BAME ar gyfer swyddi a hysbysebir yn allanol, nifer y ceisiadau llwyddiannus yn ystod y broses sifftio, a nifer y cynigion am swyddi, gynyddu bob blwyddyn am y tair blynedd nesaf.

**14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r targed hwn, ond yn parhau i bryderu am y gwahaniaeth rhwng nifer y staff BAME a staff nad ydynt yn BAME, a chredwn y byddai'n fanteisiol gallu cadw golwg ar y gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn er mwyn gallu cymharu dros gyfnod o amser hwy.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys y ffigurau ar gyfer y tair blynedd diwethaf o ran y bwlch cyflog BAME yn yr adroddiad amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn caniatáu ar gyfer gwneud cymhariaeth o ran y cynnydd a wnaed yn y maes hwn.

**15.** Holodd y Pwyllgor Gomisiwn y Cynulliad a oedd unrhyw asesiad wedi'i gynnal ynghylch gofynion o ran y Gymraeg ac anawsterau wrth recriwtio rhai grwpiau fel y rhai o gymunedau BAME a'r rheini o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, yn enwedig ers i ofynion recriwtio gael eu newid yn ystod haf 2018. Esboniodd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fod Comisiwn y Cynulliad wedi bod yn gweithio i fireinio ei ddull o ymdrin ag anghenion o ran y Gymraeg trwy gyflwyno gwahanol lefelau o ran gofynion sgiliau, a darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i unrhyw staff sydd eisiau dysgu neu ddatblygu'r sgiliau hyn.

**16.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau a gymerwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i deilwra'r gofynion o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, mae canfyddiadau pobl y tu allan i'r sefydliad bod angen siarad Cymraeg i weithio i Gomisiwn y Cynulliad yn peri pryder inni. Mae'r ffaith nad yw Comisiwn y Cynulliad ar hyn o bryd yn gallu dod i gasgliadau ynghylch effaith y newidiadau i'r gofynion hyn hefyd yn destun pryder.

**17.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ffigurau ar gyfer recriwtio allanol yn yr adroddiadau blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dangos bod cyfanswm yr ymgeiswyr am bob swydd wag a hysbysebwyd yn allanol yn is yn 2018-19 nag unrhyw flwyddyn arall yn y cyfnod rhwng 2014-15 a 2018-2019 a hefyd bod ymgeiswyr nad ydynt yn BAME ddwywaith mor debygol â'r ymgeiswyr BAME i symud ymlaen i gael swydd.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu tystiolaeth i dawelu meddwl y Pwyllgor nad yw'r polisïau recriwtio yn cyfyngu ar nifer gyffredinol yr ymgeiswyr ac yn arbennig y rhai o gefndiroedd BAME a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a hynny fel bod y dystiolaeth hon yn cyfrannu at waith craffu'r Pwyllgor o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn ystod tymor yr hydref nesaf.

## Arolygon Staff ac Aelodau'r Cynulliad

**18.** Cynhaliwyd arolwg o staff Comisiwn y Cynulliad rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019. Gostyngodd cyfradd ymateb yr arolwg yn sylweddol o 82 y cant i 62 y cant. Mae adroddiad blynyddol Comisiwn y Cynulliad yn nodi y caiff yr arolygon nesaf eu cynnal ym mis Medi. Roedd Comisiwn y Cynulliad yn cydnabod bod y gyfradd ymateb yn dangos nad oedd yr amseru wedi gweithio y tro hwn.

**19.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Comisiwn y Cynulliad yn rhyddhau canlyniadau ei arolwg i'r cyhoedd, yn wahanol i arolwg pobl Llywodraeth Cymru a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill fel y GIG. Mae hyn yn rhywbeth y dylai Comisiwn y Cynulliad ei wneud yn y dyfodol i sicrhau ei fod mor dryloyw â phosibl.

**20.** Nododd y Pwyllgor fod mynegai ymgysylltu yr arolwg staff blynyddol yn gyson uwch na sgôr y Gwasanaeth Sifil. O ystyried bod Comisiwn y Cynulliad yn rhagori ar hyn yn gyson, nid yw'r Pwyllgor yn glir a yw gosod sgôr cyffredinol y mynegai ymgysylltu ar gyfer yr arolwg staff blynyddol ar yr un lefel neu'n uwch na sgôr cyfartalog y Gwasanaeth Sifil fel targed o ran dangosydd perfformiad allweddol yn ddigon uchelgeisiol.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried gosod targed mwy penodol o ran canran ar gyfer y mynegai ymgysylltu a hynny yn sgil y ffaith ei fod yn gyson rhagori ar y targed fel y'i gosodwyd ar hyn o bryd.

**21.** Rhestrir y sgôr boddhad cyffredinol ar gyfer Aelodau Cynulliad/Staff Cymorth Aelodau Cynulliad fel dangosydd perfformiad allweddol. Er mwyn i hwn fod yn ddangosydd perfformiad allweddol effeithiol, credwn fod angen cyfrifo hyn yn gyson dros amser, er enghraifft trwy un cwestiwn boddhad cyffredinol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi canlyniadau cyffredinol pob cwestiwn unigol yn yr arolwg staff. Dylai hyn gynnwys data cymharol dros gyfnod o dair blynedd.

## Cyfraddau absenoldebau oherwydd salwch

**22.** Nododd y Pwyllgor mai'r gyfradd salwch oedd 3.66 y cant, a oedd ychydig yn is na lefel 2017-18 (3.77 y cant). Datgelodd Comisiwn y Cynulliad hefyd ffigurau absenoldeb oherwydd iechyd meddwl a llesiant yn yr adroddiad blynyddol. Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn gyfredol, 2019-20, o'u cymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Esboniodd Comisiwn y Cynulliad fel a ganlyn:

> "Yn 2018-19 roedd cyfanswm yr absenoldebau treigl am resymau salwch meddwl yn 33 y cant a chynyddodd ychydig yn 2019-20 i 36.8 y cant. Mae ein hystadegau yn unol ag absenoldebau cynyddol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ar draws y sector cyhoeddus. Gwyddom o'r dadansoddiad, a'n rhwydwaith gweithredol cydraddoldeb yn y gweithle o ran iechyd meddwl, fod ein cyfraddau wedi cynyddu, yn rhannol, o ganlyniad i'n hymgyrch weithredol i dorri'r stigma o amgylch iechyd meddwl ac i annog gweithwyr i ddod ymlaen. Rydym wedi nodi perthynas uniongyrchol rhwng y cynnydd hwn a gostyngiad cyfatebol mewn achosion o annwyd a phroblemau cyhyrysgerbydol. Mae'r ystadegau'n dal nifer o afiechydon, gan gynnwys pryder, iselder ysbryd, a salwch meddwl sy'n gysylltiedig â phrofedigaeth."[5]

**23.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys absenoldebau oherwydd iechyd meddwl a llesiant yn ei adroddiad blynyddol. Mae hon yn rhan bwysig o chwalu'r stigma o amgylch iechyd meddwl.

# 3. Ymgysylltu â dinasyddion

**24.** Adroddodd Comisiwn y Cynulliad ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud ag ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo gwaith y Cynulliad. Er y cyflawnwyd llawer o'r rhain, nododd y Pwyllgor mai'r cyfryngau cymdeithasol sy'n gyfrifol am y prif gynnydd sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

**25.** Mae bodlonrwydd Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth ar y modd y mae Comisiwn y Cynulliad yn **ymgysylltu â phobl Cymru** ac yn **hyrwyddo gwaith y Cynulliad** wedi bod yn is na'r targed yn gyson, sef 6.9 a 6.8 allan o 10 yn ôl eu trefn yn 2017-18. Er bod 3 dangosydd gwahanol yn cael eu cynnwys ar gyfer 2019 o dan y pennawd "ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad", mae cyfraddau

[5] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)- 27-19 PTN2, 4 Tachwedd 2019

boddhad y dangosyddion hyn yn dal i fod yn is na'r targed, gan sgorio rhwng 7.4 a 7.9 allan o 10.

**26.** Mae Comisiwn y Cynulliad wedi diweddaru ei ddangosyddion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch ei allu i gyflawni yn hyn o beth.

**27.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y dangosydd diwygiedig ar gyfer Ymgysylltu â Dinasyddion yn gofyn am ymrwymiad i arolygu cyfranogwyr ym mhob gweithgaredd ymgysylltu wyneb yn wyneb, a allai fod yn ddwys o ran adnoddau. Hefyd, nid yw'n eglur beth fyddai'r disgwyliad o ran lefel diddordeb, dealltwriaeth a hyder cynyddol cyfranogwyr ar ôl digwyddiadau rhyngweithio o'r fath.

**28.** Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn y gallai fod angen ystyried y dangosyddion ynghylch cynyddu nifer dilynwyr sianeli cyfryngau corfforaethol y Cynulliad neu fod angen iddynt fod yn fwy hyblyg wrth i wahanol sianeli ddod yn boblogaidd dros amser. Nodir bod nifer y bobl rydym yn ymgysylltu â hwy drwy gyfrwng gwefannau, ymweliadau, tudalennau'r we a Facebook, wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ac wedi cael eu nodi fel llwyddiant, ond bod y nifer honno wedi gostwng yn 2018-19. Nodwyd mai newid o ran pa gyfrwng y mae pobl yn ei ddefnyddio ar-lein a oedd yn gyfrifol am hynny. Yn gyffredinol, mae angen i'r dangosydd hwn a dangosyddion eraill ddangos ffigurau ar gyfer mwy na dwy flynedd, oherwydd, er enghraifft, ceir cynnydd sydyn yn yr ymweliadau pan gynhelir digwyddiadau neu arddangosfeydd.

**29.** Ar ben hynny, hoffai'r Pwyllgor weld ystyriaeth yn cael ei roi i bwy y mae Comisiwn y Cynulliad yn ei dargedu. Er bod casglu gwybodaeth am hyn ar y cyfryngau cymdeithasol yn bwysig, nid yw cyfran sylweddol o'r boblogaeth ar-lein ac mae'n bwysig sicrhau ein bod yn cyrraedd cymaint o'r boblogaeth â phosibl.

**30.** Nid yw'n glir mewn gwirionedd beth yw nod y targed o ran cyrhaeddiad yr ymgyrchoedd. Mae rhai o'r digwyddiadau a restrir, fel dathliadau 20 mlynedd ers sefydlu'r Cynulliad, yn eithaf penodol ac yn codi pryderon ynghylch mesur dangosyddion perfformiad allweddol dros y blynyddoedd.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn ailedrych ar y targedau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion er mwyn sicrhau bod modd eu cyflawni, eu cofnodi, eu bod yn ceisio cyrraedd croestoriad mor eang â phosib o'r boblogaeth ac y byddant yn ychwanegu gwerth.

# 4. Arbedion a mesurau effeithlonrwydd

**31.** Mae Comisiwn y Cynulliad wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer cynyddu cyfleoedd contract i gyflenwyr Cymru. Caiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd drwy ddangosydd perfformiad allweddol corfforaethol newydd a phennwyd targed bod 43 y cant o arian cyflenwyr yn cael ei wario ar gwmnïau sy'n seiliedig yng Nghymru erbyn diwedd y Cynulliad hwn. Y lefel a nodwyd ar gyfer 2018-19 oedd 38 y cant.

**32.** Holodd y Pwyllgor Gomisiwn y Cynulliad sut yr oedd yn bwriadu sicrhau'r cydbwysedd rhwng arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian gyda nifer gynyddol o gyflenwyr o Gymru. Esboniodd Manon Antoniazzi fod hyn wedi bod yn rhan bwysig o drafodaethau Comisiwn y Cynulliad â busnesau newydd a'i fod wedi bod yn gweithio gyda Siambr Fasnach De Cymru i nodi'r heriau y mae cyflenwyr yn eu hwynebu'n lleol i ennill contractau sector cyhoeddus Cymru.

**33.** Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y contractau mawr fel arlwyo a glanhau a oedd yn dibynnu ar is-gontractio, gan ei gwneud yn anoddach gwirio a yw cyflenwyr o Gymru yn cael eu defnyddio ymhellach i lawr y cadwyni cyflenwi. Cadarnhaodd Manon Antoniazzi y byddai'r rhain yn ystyriaethau yn y broses dendro ar gyfer y contract glanhau y flwyddyn nesaf.

**34.** Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod caffael yn elfen bwysig wrth wella'r economi sylfaenol ac mae'n hanfodol y caiff fframweithiau eu teilwra i ganiatáu i fusnesau llai gystadlu am gontractau wrth gydbwyso gwerth am arian. Rydym yn croesawu cynnwys targed i gynyddu cyfran y gwaith caffael oddi mewn i Gymru. Fodd bynnag, mae'n destun pryder i ni na fyddai'r dangosydd perfformiad allweddol, fel yr unig ddangosydd, ynddo'i hun yn sbarduno cynnydd mewn gwariant gyda busnesau lleol a allai fod yn rhy fach i dendro am gontractau Comisiwn y Cynulliad, a'r rheini sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi cyflenwyr.

**35.** Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y datblygiadau mewn arferion caffael, fel model Preston,[6] sydd wedi'i seilio ar gynyddu cyfoeth lleol ac ehangu'r gwerth cymdeithasol a gaiff ei greu gan sefydliadau. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn Comisiwn y Cynulliad ar sut y gellid ymgorffori egwyddorion dulliau o'r fath yn ei arferion caffael.

---

[6] Cyngor Dinas Preston, Mae "Model Preston" yn derm sy'n cael ei gymhwyso i sut y mae'r cyngor, ei sefydliadau angori a phartneriaid eraill yn gweithredu egwyddorion cynyddu cyfoeth cymunedol yn Preston ac ardal ehangach Swydd Gaerhirfryn (Mai 2019)

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn ailedrych ar ei darged ar gyfer caffael er mwyn sicrhau, wrth gydbwyso ystyriaethau gwerth am arian, ei fod yn ysgogi cynnydd yng nghyfran y gwariant gyda busnesau bach yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi.

# 5. Cynaliadwyedd

**36.** Holodd y Pwyllgor y tystion ynghylch dull Comisiwn y Cynulliad o gyrraedd targedau amgylcheddol. Nododd y Pwyllgor, o'r adroddiad blynyddol, fod Ystâd y Cynulliad wedi defnyddio mwy o drydan eleni, ac roedd am wybod am gynlluniau Comisiwn y Cynulliad o ran hybu a gwella cynaliadwyedd yn y dyfodol. Pwysleisiodd Comisiwn y Cynulliad y byddai gosod ffenestri newydd ar draws Tŷ Hywel yn fuddsoddiad a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni yr adeilad yn y dyfodol.

**37.** Trafododd y Pwyllgor argaeledd mathau cynaliadwy o drafnidiaeth ar ystâd y Cynulliad. Nododd y Pwyllgor fod gan Gomisiwn y Cynulliad bedwar pwynt gwefru trydan, car trydan a beic at ddefnydd pawb. Fodd bynnag, credwn y gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r cyfleusterau sydd ar gael. Dylai Comisiwn y Cynulliad geisio bod yn esiampl yn y maes hwn.

**38.** Holodd y Pwyllgor Gomisiwn y Cynulliad faint o blastig untro a ddefnyddir ar yr ystâd, a chroesawodd yr ymrwymiad a ganlyn ganddo:

> "Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn gyda'n cadwyn gyflenwi i wella'r ddarpariaeth o opsiynau mwy cadarn yn ecolegol lle mae'n bosibl gwneud hynny. Byddwn hefyd yn cynnal archwiliad o'r plastig untro sy'n weddill yn y gwasanaeth arlwyo erbyn diwedd y flwyddyn i weld beth arall y gellir ei ddileu'n raddol, gyda chyfraniad Charlton House (ein darparwr arlwyo)."[7]

**39.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad hwn i gynnal archwiliad o blastig untro erbyn diwedd 2019 i sicrhau cynnydd yn y maes hwn.

**40.** Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cymryd nifer o gamau da gyda'i bartneriaid tuag at leihau ei effaith amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai Comisiwn y Cynulliad fod hyd yn oed yn fwy beiddgar ac uchelgeisiol ym maes cynaliadwyedd, yn arbennig o ran lleihau faint o drydan a ddefnyddir

---

[7] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-27-19 PTN2, 4 Tachwedd 2019

**41.** Nodwyd fod Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad ar Gynaliadwyedd 2018-19 (Gorffennaf 2019) wedi'i gyhoeddi sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth a data ynghylch tueddiadau. Fodd bynnag, dim ond un dangosydd sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd yn y dangosyddion perfformiad allweddol diwygiedig. Mae hwnnw'n ymwneud â theithio mewn car sy'n gysylltiedig â busnes, a gellir cysylltu hynny â lleihau effaith carbon. Gyda llawer o'r targedau yn yr adroddiad Cynaliadwyedd yn dod i ben yn 2020-21 a set newydd o ddangosyddion yn cael eu cyflwyno, mae hwn yn gyfle da i bennu targedau ymestynnol gyda'r nod o barhau i leihau allyriadau Comisiwn y Cynulliad a'i effaith amgylcheddol gyffredinol. Dylai hyn gynnwys effaith yr ystâd ym Mae Caerdydd ac adeiladau eraill.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn pennu ystod o ddangosyddion i gyflawni'r nodau uchelgeisiol sydd eu hangen i wella cynaliadwyedd yn barhaus a lleihau effaith Comisiwn y Cynulliad ar yr amgylchedd.